Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Dachwedd 2023 am 7.30

Cafwyd ymddiheuriadau gan Einion Edwards, John Jones a Cyn Gwennol Ellis.
Presennol oedd Guto Jones, Menai Hughes, Dyfan Jones, Llio Morris, Maria Roberts, Ffuon Williams a Prys Ellis fel cadeirydd.
Datgan diddordeb or AGENDA neb.
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.
Gohebiaeth
[1] Croesawyd ein cynghorydd Newydd atom sef Dyfan Jones. Arwyddwyd ffurflen ganddo yn datgan ei fod yn derbyn y swydd ac bod y clerc wedyn yn gyrru mlaen ir Sir ei enw ai gyfeiriad er mwyn cofnod.
[1.0] Cynllun chwarae yr haf gan Gyngor Sir Conwy - anfoneb am y cynllun llynnedd £400 pasiwyd iw dalu. Hefyd maent yn gofyn os yr ydym yn fodlon ei cefnogi eto eleni gyda'r yr un swm sef £400 pasiwyd iw gefnogi.
[1.2] Cylch Meithrin Cerrig y Drudion cafwyd anfoneb ir cais a gytunwyd gennym i ariannu rhan daliad o gadeiriau pwrpasol ir cylch anfoneb o £72.00 pasiwyd iw dalu.
[1.3] Cyngor Sir Conwy llyfrgelloedd Gymunedol Uwchaled - cafwyd llythyr yn gofyn os buasem yn ei'u cefnogi eto eleni yn ariannol drwy gyfrannu £1,250.00. Pasiwyd i gefnogi.
[1.4] Ambiwlans Awyr Cymru – cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael tan ddechrau flwyddyn gan ein bod wedi cyfrannu yn y flwyddyn presennol.
[1.5] Cerebral Palsy – gofyn am gyfraniad pasiwyd iw adael am y tro.
[1.6] Scottish Power anfoneb mewn credit o £298.20
[1.7] Ceir Cymru – anfoneb £80.67 am betrol i dorri fynwent pasiwyd iw dalu.
[1.8] Fynwent wedi derbyn tal claddu llwch y diw Beti Jones, Glasfryn £80.00.
Unrhyw fater arall
[1.9] Toiledau - cafwyd cwyn bod llawer o ddail yn cronni tu allan ir toiledau ac ei bod yn edrych yn fler y clerc i gysylltu ar Sir.
[2.] Canolfan Glyd Llew Gwyn cafwyd llythyr yn datgan bod y ganolfan glyd am agor ar pnawn ddydd mercher ac maent yn gofyn am arian i ariannu nwyddau - pasiwyd ein bod yn talu yr anfonebau a ddaw i law.
[2.1] Torch Sul y cofion mae'r clerc wedi prynnu torch am £20.00 pasiwyd i dalu y clerc ac bod y Cadeirydd sef Prys Ellis yn ei gosod yn ei lle ar fore Sul y cofio. Trafodwyd hefyd bod angen brwsio y dail ar y sgwar cyn ddyd sul i bawb sydd yn gallu ddod ir sgwar erbyn 1.00 ddydd sadwrn.
[2.2] Cyngor Sir Conwy - cafwyd cais cynllunio i estyniad i drac Go certi yn Glan y Gors nid oedd unrhyw wrthwynebiad.
[2.3] Cymuned Glasfryn cafwyd llythyr yn nodi eu dymuniad ar beth y dymunant gael yn mhentref Glasfryn un pwynt oedd ein bod ni fel Cyngor Cymuned yn ysgrifennu i Lee Walters yn cefnogi pryderon trigolion glasfryn am gael arafu y gyrru drwy bentre Glasfryn y clerc i ysgrifennu.
Pwynt arall oedd i gefnogi cais i gael prynnu adnoddau sef fainc yn y Parc (nodwyd mai Sir oedd yn berchen ar y Parc ac iddynt gysylltu ar Sir i ofyn caniatad ac i fod yn wyliadwrus or yswiriant). Prynnu goleudau i roi ar goeden dolig yn y pentref ac prynnu ychydig o botiau blodau o amgylch y pentref. Pasiwyd i gefnogi eu dymuniad ac sail bod y clerc yn derbyn anfonebau cyn iw talu.
[2.4] Laptop cafwyd cais gan y clerc os yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon rhannu gost o brynnu laptop i wneud gwaith gweinyddol y Cyngor y gost iw rannu rhwng Cerrig a Llanfihangel am oddeutu £250 yr un pasiwyd i wneud hynn.
[2.5] Glyn Lloyd - cafwyd anfoneb am dori gwair y fynwent Newydd £1,600.00 pasiwyd iw dalu.
[2.6] Menai Hughes – pasiwyd i dalu cyflog y gofalwr yr Ystafell Plwyf sef £500.00.
[2.7] Carol Humphreys - anfoneb am £15.98 mae'r clerc wedi prynnu ychydig o blanhigion iw rhoi yn dwbiau ger yr ystafell blwyf pasiwyd iw dalu.
[2.8] Y Cyng Gwennol Ellis cafwyd ychydig o bwyntiau gan y cyghorydd,

Hwb Uwchaled  Nodwyd bod Maria Owen Roberts yn ymddiriedolwr ac yn cynyrchioli'r Cyngor Cymuned. Pe bai Maria yn dewis peidio bod yn gynghorydd ar unrhyw adeg, wedyn bydd angen ir Cyngor Cymuned enwebu rhyun arall yn ei lle.  Dywedodd bod y gwasanaeth llyfrgell yn cynyddu o ran cwsmeriaid.
Y gwter Bryn Aber – doedd dim trafferthion gyda'r graean yn casglu yn y gwter yn ystod y glaw trwm diwethaf .
LLif mawr ar ffordd Brenig cyn bont yr Alwen – mae'r gors wrth fynedfa I'r goedwig yn gorlifo gan achosi llif ir ffordd.  Y Cyngor yno heddiw yn clirio ond bydd angen cadw golwg or sefyllfa.
Wedi derbyn cwyn ddiwedd y prynhawn bod Tractors shy'n cario baw o waith Dwr Alwen yn trafeilio drwy'r llan. Yr achwynwr yn dweud fod y contractwyr wedi cael cyfarwyddwyd i beidio dod lawr stryd y Brenin gan Dwr Cymru. Dywedodd y bydd yn edrych i mewn i hyn.